OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 Rhif 3161 (Cy.272) (C.128)

# LANDLORD A THENANT, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002 (Cychwyn Rhif 4) (Cymru) 2007

*Gwnaed - - - - 5 Tachwedd 2007*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 181 o Deddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002(**1**) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

**Enwi a cymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002 (Cychwyn Rhif 4) (Cymru) 2007.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru.

**Darpariaeth sy'n dod i rym ar 30 Tachwedd 2007**

**2.** Daw adran 153 o Deddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002 yn dod i rym ar 30 Tachwedd 2007 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym.

*Jocelyn Davies*
O dan awdurdod y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, un o Weinidogion Cymru

5 Tachwedd 2007

(**1**) 2002 p.15.

(**2**) Mae'r pwerau a roddir gan adran 181 o Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002 (c. 15) yn arferadwy gan yr awdurdod priodol. Caiff "Appropriate authority" ei ddiffinio yn adran 181(4) o'r Ddeddf honno a'i ystyr, o ran unrhyw ddarpariaeth yn Rhan 2 o'r Ddeddf honno, yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru o ran Cymru. Mae'r pwer hwnnw bellach wedi'i freinio yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dod ag adran 153 o Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002 ("y Ddeddf") i rym o ran Cymru.

Mae adran 153 o'r Ddeddf yn mewnosod adran 21B i Ddeddf Landlord a Thenant 1985, sy'n ei gwneud yn ofynnol i grynodeb o hawliau a rhwymedigaethau'r tenant fynd gyda hawliad ar gyfer taliadau gwasanaeth.

## NOTE AS TO EARLIER COMMENCEMENT ORDERS

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Cafodd y darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf eu dwyn i rym yng Nghymru a Lloegr gan Offerynnau Cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn:

| *Darpariaeth* | *Dyddiad Cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Adrannau 1 i 20 | 27 Medi 2004 | 2004/1832 |
| Adrannau 21 (1) i (3) a (6) i (10) | 27 Medi 2004 | 2004/1832 |
| Adrannau 22 i 41 | 27 Medi 2004 | 2004/1832 |
| Adran 42 | 29 Medi 2003 | 2003/2377 |
| Adrannau 43 i 61 | 27 Medi 2004 | 2004/1832 |
| Adran 62 | 29 Medi 2003 | 2003/2377 |
| Adran 63 | 27 Medi 2004 | 2004/1832 |
| Adrannau 64 i 67 | 29 Medi 2003 | 2003/2377 |
| Adran 68 | 27 Medi 2004 | 2004/1832 |
| Adrannau 69 a 70 | 29 Medi 2003 (yn rhannol) | 2003/2377 |
| | 27 Medi 2004 (y gweddill) | 2004/1832 |
| Adran 180, i'r graddau y mae'n ymwneud â diddymu Atodlen 14 o adran 104 | 17 Tachwedd 2004 | 2004/3056 |

Cafodd y darpariaethau a ganlyn o Ddeddf 2002 eu dwyn i rym yng Nghymru gan Offerynnau Cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn:

| *Darpariaeth* | *Dyddiad Cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Adrannau 71 i 73 | 30 Mawrth 2004 | 2004/669 (Cy.62) |
| Adran 74 | 1 Ionawr 2003 (yn rhannol), | 2002/3012 (Cy.284) |
| | 30 Mawrth 2004 (y gweddill) | 2004/669 (Cy.62) |